

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae safle datblygiad arfaethedig Parc Ffyniant ar hen safle Gwaith Alwminiwm Penrhos, Caerdybi, ar Ynys Môn wedi cael ei adolygu oherwydd ei botensial o ran ei dreftadaeth a'i archeoleg.

Yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio llywodraeth leol, ymgwymerwyd ag asesiad o'r ddesg er mwyn ceisio cael eglurder ynghylch potensial y maes astudiaeth o safbwynt treftadaeth ac archeoleg.

Nid oes unrhyw asedau hanesyddol penodedig (Safleoedd Treftadaeth Byd, Henebion Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig, Safleoedd Brwydrau Hanesyddol, Parciau a Gerddi Cofrestredig, Safleoedd Llongdrylliadau Gwarchodedig ac Ardaloedd Cadwraeth) o fewn y safle astudiaeth ei hun, er bod nifer o Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig o fewn 2km i'r ardal astudiaeth. Mae traweffeithiau datblygiad posib i'r asedau hyn wedi eu hasesu ac ystyrir na fydd unrhyw draweffaith ar leoliad nac arwyddocâd yr asedau hanesyddol penodedig hyn, ac eithrio mymryn lleiaf o draweffaith negyddol i arwyddocâd Heneb Gofrestredig Beddrod Siambr Trefignath oherwydd y bwriad i godi ffurfiau newydd a fydd mewn golwg i'r dwyrain o'r heneb.

Nid yw'r safle astudiaeth wedi'i leoli o fewn ardal sydd o flaenoriaeth archeolegol penodedig.

Gwneir cais am ganiatâd amlinellol fel bod yr aiddatblygiad yn cynnwys dymchwel strwythurau ac adeiladau er mwyn caniatáu i ofod llawr newydd gael ei greu, gan gynnwys canolfannau data (dosbarth defnydd B8), swyddfeydd a gofodau ymchwil a datblygiad (dosbarth defnydd B1), a storio ynni batri (defnydd Unigryw). Bydd y datblygiad yn cynnwys trefniadau draenio a thirlunio newydd, porthdai, ac adeiladau cysylltiedig eraill, isadeiledd a gwaith peirianyddol. Mae pob mater wedi'i neilltuo ac eithrio (cadw) mynedfeydd i'r safle o'r A5.

Ymgwymerwyd ag ymarfer treialu cloddio ffosydd a thwll turio archeolegol ym mis Awst a Medi 2024 (Archeoleg Wessex 2024) er mwyn cefnogi'r cynnig datblygiad. Ni lwyddodd y ddwy ffos dreialu a dargedwyd ar linell Ffordd Telford i'w adnabod yn yr un o'r ddwy ffos. Dangosodd y ddwy ffos dystiolaeth ar gyfer amhariad modern trwm yn gysylltiedig gydag adeiladu'r Gwaith Alwminiwm. Bu i'r gwaith geoarcheolegol, oedd yn archwilio'r hen gilfach llanw sydd i'w gweld ar fapiau cynnar yn rhan gogledd-orllewinol y safle, sefydlu bod yna amgylcheddau arfordirol newidiol, gyda dyddodion o'r traeth a'r llanw wedi eu selio gan fawn trwchus oedd wedi'i selio, yn ei dro gan dywod eolaidd wedi'i chwythu gan y gwynt, o bosib yn cynrychioli twyni oedd yn dynesu, ac a oedd yn eu tro wedi'u selio gan ddyddodion mawn mwy diweddar. Yn anffodus, nid oes unrhyw fawn a dynnwyd ymaith yn addas at bwrpas dyddio, ond mae'r gwaith yn dynodi amgylchedd arfordirol newidiol dros amser.

Ystyrir ei bod yn debygol bod gweithgarwch amaethyddol o'r cyfnod ôl-ganoloesol ymlaen wedi cael traweffaith negyddol gymedrol ar ddyddodion archeolegol o dan y ddaear, ond bod hynny dros ardal helaeth.

Bu i waith datblygu'r safle astudiaeth yn ystod ail hanner y 20fed ganrif i hwyluso adeiladu Gwaith Alwminiwm Penrhos arwain at flaendorri lletraws difrifol o'r dyddodion o dan y ddaear presennol, gan dynnu ymaith yr holl nodweddion archeolegol llorweddol cynharach a dyddodion cysylltiedig. Ystyrir ei bod yn debygol fod hyn wedi cael traweffaith negyddol ddirifol, helaeth ar ddyddodion archeolegol o dan y ddaear.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, mae yna botensial mewn theori i olion o dan y ddaear sydd o ddiddordeb fod yn gysylltiedig gyda'r cyfnod Cyn-hanesyddol a'r 19eg ganrif fod yn bresennol o fewn y safle astudiaeth. Oherwydd y traweffeithiau sylweddol o dan y ddaear sy'n gysylltiedig gydag adeiladu Gwaith Alwminiwm Penrhos yn ystod ail hanner yr 20fed ganrif, rhagwelir y byddai unrhyw ddyddodion archeolegol cynharach o ddiddordeb wedi cael eu blaendorri a fwy na thebyg wedi eu tynnu ymaith. Ar sail hyn, ni argymhellir unrhyw waith maes archeolegol pellach. Nid oes unrhyw waith ymwithiol wedi'u cynllunio yn ardal yr hen gilfach i'r gogledd-orllewin o'r safle, ac nid ystyrir bod unrhyw waith geoarcheolegol pellach yn angenrheidiol.